# ATODIAD 2

## Astudiaeth Achos: Prosiectau Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai

### T6 Gwella mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau

Mae'r panel yn trafod achosion unigol er mwyn adnabod a monitro os yw'r gefnogaeth neu ddarpariaeth gywir mewn lle. Cyfeiriwyd achos Person Ifanc A at y panel gan ei Gweithwyr Cymdeithasol. Mae'r unigolyn gydag amrediad o ffactorau cymhleth, heriol ac wedi gweithio gydag amrediad o asiantaethau lleol - ond erbyn cyrraedd y panel, dim ond yn cael mynediad i wasanaethau statudol yr awdurdod.

Mae Person Ifanc A wedi bod mewn gofal, ddim wedi cwblhau addysg uwchradd, dim cymwysterau a gydag anghenion dysgu dwys iawn, problemau teulu sylweddol ac yn byw bywyd 'chaotic'. Roedd hefyd yn wynebu'r posibilrwydd o orfod symud o'r cartref oherwydd sefyllfa teulu ac arian. Nod y panel yn y lle cyntaf oedd ail ymgysylltu gyda'r unigolyn er mwyn cael yr "hook" ar gyfer ei chefnogi i fynd i'r afael a rhai o'r ffactorau penodol. Fodd bynnag, nid hawdd oedd perswadio asiantaethau i weithio gyda'r unigolyn. Trafodwyd yr achos yn y panel , blaenoriaethu ei anghenion a phenderfynu mai datblygu perthynas oedd y cam cyntaf. Cytunodd GISDA (er nad yn gleient) i ymgymryd â'r rôl Gweithiwr Allweddol ac i weithio yn agos gyda'r unigolyn.

Mae'r Panel yn monitro cynnydd yn fisol ac mae Person Ifanc A wedi ymgysylltu gyda GISDA a bellach yn gweithio rhan amser yn ardal Porthmadog gyda chefnogaeth GISDA. Mae'r panel yn ddull effeithiol o rannu adnoddau, adnabod arbenigedd a sicrhau bod cydweithio cydlynus o safbwynt y person ifanc.